Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Awel y Mynydd

Ysgol Awel y Mynydd
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
Conwy
LL31 9RZ

Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2025

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Awel y Mynydd

| | |
|---|---|
| Enw’r lleoliad | Cylch Meithrin Awel y Mynydd |
| Categori’r gofal a ddarperir | Gofal Sesiynol |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw’n berthnasol) | Cheryl Jones |
| Person â gofal | Cheryl Jones |
| Nifer y lleoedd | 59 |
| Amrediad oedran y plant | 2-4 mlwydd oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 17 |
| Nifer y plant sy’n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 17 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i Ddydd Gwener 09:00 tan 14:45 |
| Gwasanaeth Dechrau’n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw’r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Arolwg cyntaf ers ailgofrestru. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 24/01/2017 |
| Dyddiadau’r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 01/07/2025 |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Rhagorol** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Rhagorol** |
| **Gofal a datblygiad** | **Rhagorol** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Rhagorol** |
| **Yr amgylchedd** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Parhau i ddatblygu partneriaethau o fewn y gymuned er mwyn hyrwyddo profiadau dysgu'r plant

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

# Prif ganfyddiadau

## Lles: Rhagorol

Mae gan y plant lais cryf iawn. Mae bron pob plentyn yn gwneud nifer helaeth o ddewisiadau a phenderfyniadau am sut i dreulio eu hamser yn effeithiol iawn. Maent yn defnyddio’r amrywiaeth eang o weithgareddau ac adnoddau diddorol i sbarduno eu chwarae ac i ddatblygu eu syniadau. Mae bron pob plentyn yn cyfathrebu’n hyderus, gan gynnwys y rheini nad ydynt yn dibynnu ar ddulliau llafar yn unig, gan eu bod yn gwybod y bydd yr ymarferwyr yn gwrando arnynt ac yn ymateb iddynt.

Mae gweithdrefnau setlo llwyddiannus a hyblyg yn helpu'r plant i deimlo'n ddiogel ac i ymlacio. Mae bron pob plentyn yn cyrraedd yn hapus a chartrefol wrth gael eu croesawu gan ymarferwyr. Mae gan blant ymdeimlad cryf iawn o berthyn i’r lleoliad. Maent yn ysu i gyrraedd yr amgylchedd chwarae gan wenu a chyfarch yr ymarferwyr. Mae bron pob plentyn yn meithrin perthnasoedd agos iawn â’r ymarferwyr. Er enghraifft, gwelir plant yn hyderus a chyfforddus wrth ofyn am gymorth i ddefnyddio’r synhwyrydd metel yn y twba tywod.

Mae bron pob plentyn yn cyd-chwarae neu'n chwarae ochr yn ochr â'i gilydd ac ymarferwyr yn arbennig o dda. Mae'r plant yn gyfarwydd iawn â threfniadau'r dydd. Maent yn dysgu i ddilyn rheolau ac i barchu pobl eraill ac eiddo, er enghraifft pan fyddant yn cydweithio er mwyn helpu i dacluso. Mae llawer yn hynod garedig wrth ei gilydd ac yn feddylgar o anghenion eraill. Er enghraifft, maent yn helpu eu ffrindiau i dorri tâp er mwyn creu lloches. Mae gan y rhan fwyaf o blant ddiddordeb brwd yn yr hyn mae eu ffrindiau yn ei wneud. Er enghraifft, maent yn cydweithio’n llwyddiannus wrth glymu rhaffau o gwmpas pyst i greu siop deganau ar gyfer chwarae rôl.

Mae bron pob plentyn yn dangos lefel uchel o gymhelliant a dyfalbarhad wrth chwarae. Mae bron pob un yn symud o gwmpas yr amgylcheddau dan do ac awyr agored yn hwylus dros ben wrth fagu hyder. Maent yn archwilio’u hamgylchedd yn annibynnol ac yn dilyn eu diddordebau yn rhydd. Mae amrywiaeth eang o weithgareddau diddorol a chyffrous iddynt ddewis o'u plith. O ganlyniad, mae'r plant yn dysgu sut i ganolbwyntio a dyfalbarhau, ac mae bron pob un ohonynt yn treulio cyfnodau estynedig yn cymryd rhan mewn gweithgareddau o'u dewis. Mae bron pob plentyn yn canolbwyntio am amser cynyddol yn ystod cyfnodau grŵp gwerthfawr dan arweiniad oedolion. Er enghraifft, yn ystod amser cofrestru a chyfleoedd i ddawnsio a chanu.

Mae bron pob plentyn yn hyderus wrth ymchwilio a rhoi cynnig ar bethau drostynt eu hunain. Drwy symud rhwng gweithgareddau a dilyn eu diddordebau eu hunain, maent yn meithrin hyder wrth wneud dewisiadau ac yn gofyn am help pan fydd ei angen arnynt. Maent yn meithrin annibyniaeth ac yn cyflawni sawl tasg ymarferol drostynt eu hunain. Er

enghraifft, maent yn rheoli eu hanghenion personol fel defnyddio'r tŷ bach, golchi eu dwylo a sychu eu trwynau'n annibynnol. Mae ganddynt gyfleoedd i weini bwyd ac arllwys diodydd eu hunain yn ystod amser snac. Mae bron pob plentyn yn rhoi sbarion bwyd yn y bin ac yn rhoi platiau a chwpanau i gadw yn annibynnol.

## Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Rhagorol

Mae bron bob plentyn yn gwneud cynnydd cryf iawn yn eu medrau o'u mannau cychwyn, yn enwedig medrau datrys problemau. Maent yn mwynhau archwilio ac ymchwilio ar eu pen eu hunain a gydag eraill. Er enghraifft, maent yn mynd ar helfa drysor i chwilio am flodau gan ddod yn chwilotwyr sydd yn datblygu ymwybyddiaeth gynyddol o'r byd naturiol o'u cwmpas

Mae bron pob un o'r plant yn ymateb i gyfarwyddiadau yn y Gymraeg yn dda iawn ac yn defnyddio geirfa syml y Gymraeg yn eu brawddegau yn arbennig o dda. Mae ychydig yn siarad mewn brawddegau estynedig a chynyddol gymhleth drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae bron bob plentyn yn ymuno â chaneuon a storïau yn llwyddiannus yn ystod sesiynau amser cylch. Maent yn dangos diddordeb byw mewn llyfrau a'u trin â pharch. Maent yn mwynhau edrych arnynt gydag oedolyn ac yn annibynnol. Er enghraifft, mae plant yn dilyn print â bys wrth ddarllen stori ac yn pwyntio at y lluniau wrth adrodd stori wrth ffrind. O ganlyniad, mae eu medrau cyn ddarllen yn datblygu'n ardderchog. Mae bron pob un yn defnyddio amrywiaeth o offer marcio yn fedrus iawn, er enghraifft wrth greu rhestr siopa yn y gegin neu wrth osod tic ar ôl darganfod blodyn ar daflen helfa drysor.

Mae medrau rhifedd bron pob un o'r plant yn gryf iawn. Maent yn defnyddio iaith fathemategol yn gywir wrth iddynt chwarae ac yn datblygu dealltwriaeth gadarn o gysyniadau mathemategol. Er enghraifft, wrth ddefnyddio y glorian, maent yn egluro os yw'r garreg yn drwm neu'n ysgafn. Mae'r rhan fwyaf yn cyfri i ddeg yn Saesneg ac yn Gymraeg yn hyderus. Er enghraifft, maent yn cyfri faint o drysor sydd yn y cwch a sawl deinosor sydd yn y bwced. Mae'r rhan fwyaf yn mwynhau ymuno ag ystod o ganeuon a rhigymau mathemategol yn llwyddiannus, er enghraifft wrth gyfri am-yn-ôl o bump wrth ganu cân am Marc y Siarc.

Mae medrau digidol bron pob un o'r plant yn datblygu'n arbennig o dda. Maent yn defnyddio amrywiaeth helaeth o offer yn annibynnol ac yn hyderus iawn yn ystod eu chwarae. Er enghraifft, maent yn defnyddio llechen ddigidol i dynnu lluniau eu ffrindiau yn darllen llyfrau a synhwyrydd metel i ddarganfod trysor yn y tywod.

Mae bron pob un o'r plant yn arddangos medrau corfforol cryf iawn drwy redeg i fyny ac i lawr y llethr a theithio i mewn ac allan o'r teiars gyda rheolaeth dda o'u cyrff. Maent yn fedrus iawn wrth arllwys llaeth neu ddŵr adeg snac ac yn defnyddio cyllell i dorri ffrwyth yn yr ardal ddŵr.

Mae medrau creadigol y rhan fwyaf o blant yn datblygu'n gadarn iawn. Maent wrth eu bodd yn chwarae'n ddychmygus gan wisgo defnydd i chwarae rôl môr ladron ac yn ymgolli'n llwyr yn eu chwarae.

## Gofal a datblygiad: Rhagorol

Mae'r ymarferwyr yn dangos gwybodaeth drylwyr a manwl am bolisïau a gweithdrefnau perthnasol er mwyn cadw'r plant yn ddiogel. Mae pob un o'r ymarferwyr yn meddu ar wybodaeth gadarn am sut i amddiffyn plant ac yn gwybod beth i'w wneud os bydd ganddynt unrhyw bryderon diogelu. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ymarferwyr yn gweithio'n arbennig o dda i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn galluogi'r plant i fod yn yr awyr agored bob dydd, ymhob tywydd, gan sicrhau bod plant yn cael digon o awyr iach ac ymarfer corff. Maent yn cwblhau cofnodion perthnasol a manwl ar gyfer damweiniau a digwyddiadau. Mae systemau addas ar gyfer rhoi meddyginiaethau os bydd angen ac ar gyfer rheoli anghenion iechyd penodol plant unigol. Maent yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw gyda'r plant. Mae ymarferwyr yn darparu byrbryd a diod iach i blant, ac yn sicrhau bod dŵr ar gael ar bob adeg. Mae systemau addas ar waith i ymdopi ag alergeddau ac anoddefiad. Mae'r ymarferwyr yn cadw cofnod presenoldeb cywir o ymarferwyr a phlant, a chofnod o ymwelwyr. Maent yn goruchwylio plant yn llwyddiannus iawn ac yn cynnal ymarferion tân, sydd oll yn cyfrannu at ddarpariaeth ddiogel i'r plant.

Mae'r ymarferwyr yn ofalgar ac yn gefnogol. Maent yn rhyngweithio â'r plant mewn ffordd gynnes, adeiladol a chyfeillgar, gan greu awyrgylch cadarnhaol, hapus ac ymdeimlad cryf o berthyn. Mae'r ymarferwyr yn bwyllog ac yn barchus wrth siarad gyda phlant ac wrth siarad â'i gilydd, gan gynnig esiampl ragorol. Er enghraifft, wrth gynnig byrbryd iachus, gwelir staff yn modelu cwrteisi a'r plant yn ymateb yn bositif gan efelychu hyn wrth dderbyn eu bwyd. Mae polisi rheoli ymddygiad addas yn annog yr ymarferwyr i ddefnyddio technegau cadarnhaol fel esbonio ac arddangos er mwyn ymdrin â mân ddigwyddiadau. O ganlyniad, mae'r plant yn dysgu sut i reoli eu hymddygiad eu hunain mewn awyrgylch sy'n meithrin a hyrwyddo eu hunan-barch.

Mae'r ymarferwyr yn llwyddo i ddiwallu anghenion pob plentyn, gan gynnwys y rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae systemau hynod drylwyr ar waith i gefnogi'r plant a'u teuluoedd. Mae ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol iawn ag asiantaethau allanol fel athrawon ymgynghorol yr awdurdod lleol ac yn gweithredu ar gyngor arbenigwyr. O ganlyniad, mae'r plant yn gwneud cynnydd da iawn yn eu datblygiad.

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo chwarae, dysgu a datblygiad y plant yn arbennig o effeithiol, gan ddefnyddio anogaeth yn barhaus. Maent yn hynod fedrus wrth gynllunio'n ymatebol,

gan ddilyn diddordebau a syniadau'r plant ym mhob gweithgaredd. Mae ymarferwyr yn defnyddio arsylwadau ac asesiadau fel rhan naturiol o ymarfer ddyddiol ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn llwyddiannus iawn i gynllunio darpariaeth sy'n sicrhau datblygiad plant. Maent yn adnabod y plant yn eithriadol o dda ac yn dangos balchder ac angerdd wrth drafod cyflawniadau'r rheini y maent yn weithwyr allweddol iddynt. Mae ganddynt bartneriaeth gynhyrchiol iawn â rhieni. Maent yn trafod anghenion a chyflawniad eu plant gyda nhw'n rheolaidd er mwyn i'r naill a'r llall gaffael dealltwriaeth gadarn o anghenion plentyn. Mae hyn yn sicrhau eu bod nhw'n darparu lefel hynod effeithiol o ofal iddynt.

## Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Rhagorol

Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn iawn o ddatblygiad plant. Maent yn gweithredu'n ymatebol ac yn greadigol iawn wrth ymateb i ddiddordebau a dyheadau'r lais plant. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn llwyddiannus i gynllunio gweithgareddau sy'n seiliedig ar syniadau'r plant a thrwy hyn yn datblygu eu medrau yn effeithiol iawn. O ganlyniad, mae bron pob plentyn yn gwneud cynnydd cryf iawn.

Mae ymarferwyr yn darparu amgylchedd gyfeillgar a chreadigol iawn sy'n cynnig ystod o brofiadau arbennig i'r plant yn yr ardaloedd ar draws yr holl ddarpariaeth. Maent yn ennyn diddordeb y plant ac yn denu eu sylw at y byd o'u cwmpas yn llwyddiannus iawn. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o'r plant ac yn eu hadnabod yn arbennig o dda. Maent yn hybu medrau annibynnol y plant yn dda iawn. O ganlyniad, mae'r plant yn hyderus i 'nôl offer eu hunain i chwarae neu edrych ar ôl eu hanghenion personol eu hunain.

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant yn llwyddiannus iawn. Maent yn datblygu gweithgareddau sy'n eu hannog i ddefnyddio'u chwilfrydedd a chanolbwyntio ar ryfeddodau'r byd o'u cwmpas. Er enghraifft, maent yn darparu cyfleoedd i'r plant ddysgu am natur wrth chwilio am drychfilod, adar a blodau neu blannu llysiau a blodau yn yr ardd.

Mae'r ymarferwyr yn fodelau rôl iaith da iawn. Maent yn darparu cyfleoedd cyfoethog i blant glywed geirfa a phatrymau safonol y Gymraeg drwy siarad a chanu. O ganlyniad, mae bron pob un o'r plant yn gwneud cynnydd da iawn yn eu medrau llafar o oedran cynnar. Mae'r ymarferwyr yn annog y plant i ddatblygu medrau rhifedd effeithiol drwy amrywiaeth o gyfleoedd pwrpasol, megis cyfrif sawl plentyn sydd yn y grŵp, neu gyfri i pump wrth daro a siglo'r offerynnau cerddorol. Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo medrau datrys problemau a chyfathrebu'r plant yn arbennig drwy eu hannog i greu lloches allan o ddefnydd a rhaffau tu allan neu wrth greu llong allan o gardfwrdd a phren i'r môr ladron.

Mae ymarferwyr yn asesu cynnydd y plant yn fedrus ac yn ychwanegu adnoddau'n gelfydd er mwyn eu herio i ddatblygu eu gwahanol fedrau ymhellach. Maent yn annog y plant i

ddyfalbarhau ar dasgau yn effeithiol iawn trwy holi cwestiynau pen agored i hyrwyddo’r chwarae. O ganlyniad, mae’r plant yn ymgolli’n llwyr yn eu gweithgareddau.

Mae ymarferwyr yn casglu gwybodaeth gan rieni am eu plant cyn iddynt gychwyn yn y lleoliad. Mae gan bob plentyn weithiwr allweddol sy’n cadw golwg fanwl ar eu datblygiad ac yn adnabod y camau nesaf yn eu dysgu. Maent yn adolygu datblygiad y plant yn rheolaidd ac yn trin a thrafod eu cynnydd ymysg ei gilydd yn wythnosol. O ganlyniad, mae’r ymarferwyr yn adnabod anghenion a diddordebau’r plant yn drylwyr iawn. Mae ymarferwyr yn darparu gwybodaeth gyson i’r rhieni am yr hyn mae eu plant yn ei gyflawni yn ystod y dydd.

## Yr amgylchedd: Rhagorol

Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn cynnig amgylchedd hynod gyfoethog sy’n darparu cyfleoedd niferus i’r plant gael eu herio a chymryd risgiau priodol. Mae hyn yn cefnogi eu holl feysydd dysgu a datblygu yn llwyddiannus. Mae’r arweinwyr wedi buddsoddi swm sylweddol i ddatblygu a gwella’r amgylchedd allanol.

Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn cael gofal mewn amgylchedd diogel. Maent yn dangos dealltwriaeth dda o faterion iechyd a diogelwch perthnasol. Maent yn cofnodi gwiriadau diogelwch dyddiol, wythnosol a blynyddol ac mae pob rhan o'r lleoliad yn lân ac yn cael ei gynnal a'i gadw mewn ffordd addas. Mae arweinwyr wedi datblygu asesiadau risg manwl. Maent yn eu hadolygu'n rheolaidd, gan gynnwys ar gyfer teithiau y tu hwnt i'r lleoliad ac ar gyfer ymwelwyr sy’n darparu gwasanaeth neu’n helpu gyda phrofiadau dysgu’r plant. Maent yn ystyried yn ofalus y peryglon y tu mewn a'r tu allan er mwyn sicrhau bod camau ar waith i gadw’r plant yn ddiogel.

Mae ansawdd yr amgylchedd chwarae a dysgu yn rhagorol. Mae'r ystafelloedd chwarae yn groesawgar a chartrefol. Mae digon o le i'r plant symud o gwmpas yn hwylus wrth chwarae yn ogystal ag ardaloedd iddynt ddod at ei gilydd yn gyfforddus fel grŵp. Mae'r amgylchedd yn darparu cyfoeth o gyfleoedd gwerthfawr a heriol i blant ddatblygu ystod eang o fedrau, yn enwedig eu hannibyniaeth a'u medrau datrys problemau. Mae’r ardaloedd chwarae tu fewn a thu allan yn ddi-dor sydd yn annog chwilfrydedd y plant wrth symud o gwmpas yn rhydd ac yn hwylus. Mae'r ymarferwyr yn trefnu'r ardaloedd dysgu'n arbennig o effeithiol gan ysbrydoli’r plant i archwilio, gofyn a datblygu eu dychymyg. Mae hyn yn cefnogi datblygiad medrau creadigol y plant yn llwyddiannus ac yn eu hannog i fod yn ddysgwr chwilfrydig. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn groesawgar ac yn ddiddorol ac yn dathlu creadigrwydd y plant trwy arddangos eu gwaith a lluniau ohonynt yn chwarae. Mae hyn yn rhoi ymdeimlad cryf iawn o falchder, perchnogaeth a pherthyn i'r plant a’r ymarferwyr. Mae'r ymarferwyr yn annog y plant i ofalu am yr adnoddau ac i helpu i dacluso pan fyddant wedi gorffen chwarae.

Mae'r arweinwyr yn darparu dodrefn ac adnoddau o ansawdd rhagorol sy'n briodol o ran oedran y plant, gan gynnwys rhai sy'n hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol fel dillad gwisgo i fyny, offerynnau, llyfrau a doliau aml-ddiwylliannol. Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a'r cyfarpar yn lân ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Trefnir adnoddau'n ofalus fel eu bod yn hygyrch i'r holl blant.

Mae'r ardal allanol yn ddiogel ac yn darparu amrywiol fannau chwarae i'r plant, gan gynnwys rhai cysgodol, pan fo'u hangen. Defnyddir ardal laswelltog ar gyfer ymchwilio a chymryd risgiau dan oruchwyliaeth ymarferwyr. Mae'r ardal allanol yn cynnig amrywiaeth helaeth o gyfleoedd pwrpasol a chyffrous i blant ddatblygu eu creadigrwydd ac yn sbarduno medrau archwilio a darganfod effeithiol. Er enghraifft, ceir ardaloedd adeiladu gyda darnau rhydd, cydbwyso a dringo.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth:  Rhagorol

Mae'r arweinydd wedi llwyddo i gynnal ethos cryf iawn o deulu lle mae pob unigolyn yn cael ei werthfawrogi ac yn teimlo'n hyderus i rannu syniadau er budd y plant. Mae'r arweinydd yn brofiadol iawn ac wedi llwyddo i greu tîm effeithiol, gan rannu gweledigaeth gref a gosod disgwyliadau uchel iawn. Un o gryfderau'r arweinydd yw adnabod arddull ddysgu pob ymarferydd, ac o ganlyniad, mae pob aelod o'r tîm yn hyderus a hynod effeithiol yn eu rolau. Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr ardaloedd dysgu yn ennyn ymgysylltiad y plant yn llawn ac mae ymdeimlad o berthyn yn sail i holl waith y lleoliad.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn cydymffurfio â'r rheoliadau a'r safonau gofynnol. Maent yn dilyn gweithdrefnau recriwtio cadarn ac wedi sefydlu systemau rhagorol ar gyfer sefydlu ymarferwyr newydd. Mae arweinwyr yn rheoli a goruchwylio bob ymarferydd yn rheolaidd. Maent yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn cael hyfforddiant o ansawdd da iawn er mwyn diwallu eu hanghenion. O ganlyniad, mae ymarferwyr yn wybodus iawn am eu dyletswyddau a'u rolau ac mae hyn yn cael dylanwad cadarnhaol ar lesiant pawb yn y lleoliad.

Mae arweinwyr yn cynnal systemau cryf a chynaliadwy sy'n eu galluogi i gynnal a datblygu gwaith y lleoliad yn llwyddiannus a chyson. Maent yn adolygu gweithdrefnau'n rheolaidd er mwyn gwerthuso'r effaith ar brofiadau a chynnydd y plant. Maent yn creu amserlen synhwyrol ar gyfer cyflwyno unrhyw welliannau angenrheidiol. Mae'r gweithdrefnau hyn yn cynnwys yr holl randdeiliaid ac yn arwain at gynllun datblygu sy'n cynnwys camau gweithredu pendant , ynghyd â cherrig milltir pwrpasol er mwyn mesur cynnydd.

Mae'r arweinwyr yn gwneud defnydd rhagorol o grantiau sydd ar gael. Er enghraifft, buddsoddwyd cyllid i godi cysgodfan i alluogi'r plant i ddefnyddio'r ardal allanol drwy gydol y flwyddyn. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les y plant. Mae arweinwyr yn

gwneud defnydd effeithiol iawn o gyllid i gyflogi ymarferwyr ac i ddarparu adnoddau o safon uchel.

Mae gan arweinwyr ac ymarferwyr gysylltiadau cryf â rhieni ac maent yn eu hysbysu’n barhaus am brofiadau eu plentyn trwy ap digidol. Mae arweinwyr yn gweithio’n effeithiol gydag ysgolion lleol i gynorthwyo pontio ac yn cydweithio’n agos â swyddog datblygu’r awdurdod lleol.

Mae’r lleoliad yn elwa ar gysylltiadau agos â’r gymuned leol ac mae hyn yn helpu arweinwyr i ddarparu profiadau dysgu cyfoethog a difyr ar gyfer y plant. Er enghraifft, maent yn trefnu ymweliadau â siopau lleol er mwyn codi ymwybyddiaeth y plant o’u cynefin.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 03/09/2025